Dewisiadau gofal plant
i blant a theuluoedd

Maniffesto ar gyfer gofal plant mewn awyrgylch cartref yn etholiad cyffredinol 2010

Mae Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, y gymdeithas broffesiynol ar gyfer gwarchodwyr plant a nanis, yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i gefnogi gofal plant mewn awyrgylch cartref a sicrhau fod gan bob teulu a chymuned leol ddewis eang mewn sector gofal plant deinamig.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA) yn gofyn ichi gefnogi'r maniffesto hwn.

1. Hygyrchedd

Sicrhau fod pob teulu ym mhob cymuned yn gallu defnyddio lleoliad gofal plant mewn awyrgylch cartref o safon uchel drwy fynd i'r afael â'r lleihad yn niferoedd gwarchodwyr plant drwy fuddsoddi, cefnogi a hyrwyddo gwarchod plant.

2. Ansawdd

Cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus gwarchodwyr plant cofrestredig a nanis, drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant, cymwysterau a rhwydweithiau gwarchod plant, fel y gall pob plentyn fanteisio ar chwarae a dysgu o safon uchel a gynigir mewn lleoliadau awyrgylch cartref.

3. Fforddiadwyedd

Helpu rhieni gyda chost gofal plant a rhoi'r opsiwn i bob teulu ddewis gwarchodwyr plant i gyflenwi lleoedd gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth. Sicrhau fod rhieni sydd angen cymorth ychwanegol yn ystod gwyliau ysgol, neu deuluoedd â phlant anabl neu blant sydd ag anghenion ychwanegol yn gallu dewis gofal plant personol, ymatebol a hyblyg mewn awyrgylch cartref.

4. Cydnabyddiaeth

Cydnabod y cyfraniad a wna gwarchodwyr plant a nanis wrth helpu i leihau tlodi plant drwy gefnogi teuluoedd wrth iddynt ddychwelyd i hyfforddiant neu waith. Sicrhau fod gan leoliadau mewn awyrgylch cartref yr un cyfle i gael cymorth a chyllid gan y llywodraeth, yn genedlaethol ac yn lleol, fel bo gan bob rhiant ddewis gwirioneddol o ran gofal plant.

Ymweld â lleoliad mewn awyrgylch cartref

Er mwyn trefnu ymweld â lleoliad mewn awyrgylch cartref yn yr etholaeth lle'r ydych yn sefyll yn yr etholiad cyffredinol, cysylltwch â Peter Evans, NCMA Cymru ar 0845 8801299

ncma Cymru

MANW 03/10

"Mae gofal plant mewn awyrgylch cartref yn caniatáu i blant ffynnu ac yn golygu bod eu hanghenion unigol yn cael eu bodloni. Bob dydd, mae mwy na 60,000 o warchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr a 30,000 o nanis yn darparu bron i 350,000 o leoedd gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio neu sy'n fyfyrwyr, gan gynnwys plant anabl, plant ag anghenion ychwanegol, babanod a phlant cyn oed ysgol"

Susanna Dawson, gwarchodwr plant cofrestredig a Chadeirydd NCMA

Manteision gofal plant mewn awyrgylch cartref

Mae gwarchodwyr plant a nanis yn cynnig gofal plant personol ac ymatebol sy'n caniatáu i bob plentyn ddatblygu perthynas agos â'r oedolyn sy'n gofalu amdano, a dylanwadu ar eu cyfleoedd chwarae a dysgu eu hunain.

Mae'r NCMA yn credu bod plant o bob oed yn cael budd o ofal plant a chyfleoedd chwarae a dysgu yn y cartref, oherwydd:

Maent yn gyson – mae'r plentyn yn cael gofal gan yr un nani neu warchodwr plant cofrestredig bob diwrnod, dros nifer o flynyddoedd yn aml.

Maent yn hyblyg – er enghraifft, gall nani neu warchodwr plant cofrestredig ofalu am blentyn y mae ei rieni'n gweithio oriau anarferol, a gallant ddarparu gofal plant llawn a gofal cyn neu ar ôl ysgol.

Maent yn gynhwysol – gall nani neu warchodwr plant cofrestredig ofalu am blant o wahanol oed a gallu gyda'i gilydd mewn grwpiau teuluol.

Maent yn canolbwyntio ar gymunedau – gall nani neu warchodwr plant cofrestredig adlewyrchu anghenion cymunedau lleol, a galluogi'r plant y maent yn gofalu amdanynt i fod yn rhan o'u cymuned leol.

Maent yn bersonol – gall nani neu warchodwr plant cofrestredig ddiwallu anghenion plant a theuluoedd unigol, er enghraifft rhieni sydd yn eu harddegau neu blant anabl, ac addasu i'w hanghenion sy'n newid

Maent yn gefnogol – mae babanod a phlant iau'n enwedig yn datblygu orau mewn gwasanaeth gofal plant a geir yn y cartref, oherwydd maent yn cael gofal mewn grwpiau llai o faint a chan yr un nani neu warchodwr plant cofrestredig bob dydd.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA) yn elusen ac yn gymdeithas broffesiynol.

Credwn y dylai pob plentyn gyrraedd ei lawn botensial ac, ers 1977, rydym wedi gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig, nanis ac unigolion a sefydliadau eraill, megis llywodraeth leol a chenedlaethol, i sicrhau fod gan deuluoedd ym mhob cymuned yng Nghymru a Lloegr y posibilrwydd o gael gofal plant mewn awyrgylch cartref, chwarae, addysg a chymorth i deuluoedd o safon uchel. Cynhyrchwyd y maniffesto hwn gan NCMA. Mae rhagor o gopïau ar gael gan Tim Farrow ar 0845 880 0044 neu ar ein gwefan yn www.ncma.org.uk.

ncma Cymru